# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mai 2023 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.00 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDCC@senedd.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(09.00 - 09.05)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)349 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 1 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

(09.05 - 09.10) (Tudalen 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 SL(6)347 – Cynllun Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2023**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(09.10 – 09.15)

**4.1 SL(6)344 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

(Tudalennau 5 – 6)

Cod

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(09.15 – 09.20)

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(09.20 – 09.25)

**6.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023**

(Tudalennau 7 – 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Ebrill 2023

## 7 Papurau i'w nodi

(09.25 – 09.30)

### 7.1 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 - Papur 5 - Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 25 Ebrill 2023

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.30)

## 9 Y Bil Bwyd (Cymru): Adroddiad drafft

(09.30 - 09.45) (Tudalennau 12 - 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 - Papur 6 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus

(09.45 - 09.50) (Tudalennau 56 - 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 - Papur 7 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 11 Materion trawsbynciol fframweithiau cyffredin: Adroddiad drafft

(09.50 - 10.00) (Tudalennau 62 - 83)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 - Papur 8 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 12 Blaenraglen Waith

(10.00 - 10.20) (Tudalennau 84 - 100)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-13-23 – Papur 9 – Papur ar gynllunio’r flaenraglen waith [Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-23 – Papur 10 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 19 Ebrill 2023

LJC(6)-13-23 – Papur 11 – Llythyr at y Prif Weinidog, 11 Ebrill 2023

LJC(6)-13-23 – Papur 12 – Llythyr gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol, 25 Ebrill 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-13-23 – Papur 13 – Llythyr at Swyddfa'r Farchnad Fewnol, 11 Ebrill 2023

# SL(6)349 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion sy'n ymwneud ag apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002.

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020") ddiwygiadau dros dro i Reoliadau 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws—

(a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod;

(b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Darparodd rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 fod y diwygiadau hynny wedi peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021, ond roedd hynny yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed yn rheoliad 3 o Reoliadau 2020. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn)(Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau pellach 2020"). Diwygiwyd y dyddiad eto i 30 Medi 2022 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2005. Mae rheoliad 3(5)(a) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd A1 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2005. Mae paragraff A1 yn caniatáu i awdurdodau derbyn benderfynu, o dan amgylchiadau penodol, a yw gwrandawiad apêl i'w gynnal yn bersonol, drwy fynediad o bell ("apêl o bell") neu'n rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy fynediad o bell ("apêl hybrid") (paragraff A1(1) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn). Os yw'r awdurdod derbyn yn penderfynu cynnal apêl o bell neu apêl hybrid rhaid iddo wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol (paragraffA1(3) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2005 ymhellach i ganiatáu i'r awdurdod derbyn benderfynu y caniateir i apêl gael ei phenderfynu ar sail gwybodaeth

ysgrifenedig o dan amgylchiadau penodol (paragraff A1(5) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae darpariaeth bellach mewn perthynas ag apelau derbyn wedi ei gwneud mewn cod o dan adran 84 o Ddeddf 1998.

## Gweithdrefn

Negyddol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraffau (3) a (4) o reoliad 3 yn diwygio rheoliadau 3 a 5 o Reoliadau 2005 drwy fewnosod y geiriau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" ar ddiwedd y rheoliadau priodol. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

> *Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.*

Os mai'r effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio, pam bod angen y diwygiadau uchod? Mae'r geiriau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" eisoes yn ymddangos yn Rheoliadau 2005.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Ebrill 2023**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 02 Mai 2023

## SL(6)347 – Cynllun Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Dim Gweithdrefn

Cynghorau Iechyd Cymuned ("CICau") oedd cyrff annibynnol a sefydlwyd i fonitro barn unigolion a'r gymuned am wasanaethau iechyd yng Nghymru o ran ansawdd, hygyrchedd, a phriodoldeb y gwasanaethau a ddarperir.

Fe'u diddymwyd ar 1 Ebrill 2023 drwy gychwyn adran 23(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Yn eu lle, sefydlwyd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff") fel corff corfforaethol o dan adran 12(1) o Ddeddf 2020. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y Corff yn:

- gwrando ar farn y cyhoedd, ymhob rhan o Gymru, ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- cynorthwyo i sicrhau bod profiadau byw unigolion yn fodd o gynllunio a gwella gwasanaethau – gan ddylanwadu ar gynlluniau a pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; a
- chynorthwyo i ddatblygu gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, unigolion a chymunedau – gan hyrwyddo llais y dinesydd sy'n gwbl gynrychioliadol.

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â throsglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau rhwng y CICau a'r Corff.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu)(Cymru) 2020
**Fe'u gwnaed ar:** 30 Mawrth 2023
**Fe'u gosodwyd ar:** 31 Mawrth 2023
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2023

# SL(6)344 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

## Cefndir a Diben

Mae'r Cwricwlwm i Gymru – y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ("y Cod") yn rhoi dyletswydd statudol ar ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir i sicrhau bod eu gwaith o ddylunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys ac yn defnyddio'r cysyniadau allweddol (neu'r "datganiadau o'r hyn sy'n bwysig") a nodir yn y Cod. Mae'n diweddaru ac yn disodli'r fersiwn wreiddiol o'r Cod a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2021 ("Cod Gwreiddiol").

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn nodi'r chwe maes dysgu a phrofiad y mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir seilio eu cwricwlwm arnynt, sef y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r Cod yn nodi 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar draws y chwe maes hynny. Rhaid i gwricwlwm a ddyluniwyd neu a fabwysiadwyd gan ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir, yn ogystal â'r dysgu ac addysgu cysylltiedig, gwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn bodloni gofynion Deddf 2021.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft).

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7(i) mewn perthynas â'r Cod.

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau (ym mharagraff 2.3) bod Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddaru y Canllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar-lein yn unol â'r Cod drafft diwygiedig. Cyhoeddwyd y canllawiau'n wreiddiol ar 28 Ionawr 2020 gan ymgorffori'r 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig fel y nodir yn y Cod Gwreiddiol.

   Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Llywodraeth wrthi'n diweddaru'r canllawiau "*er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academaidd 2022/23*".

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Ebrill 2023**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

25 Ebrill 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf i hysbysu'r Pwyllgor fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud a gosod Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023 ("y Rheoliadau HIA").

Rwyf wedi derbyn llythyr oddi wrth Will Quince AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd a Gofal Eilaidd ynglŷn â'r Rheoliadau HIA, y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu gosod yng ngwanwyn 2023. At hynny, mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi dweud mai eu bwriad yw gosod y Rheoliadau ddechrau mis Mehefin.

Bydd y Rheoliadau HIA yn ymestyn i'r DU gyfan. Byddant yn cael eu gwneud drwy arfer pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 ("y Ddeddf") (a arferai gael ei galw yn Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ond sy'n cael ei hailenwi gan adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022). Pan ddaw adran 162 i rym, bydd yn peri i'r prif bŵer galluogi ar gyfer y Rheoliadau HIA gychwyn. Bydd y prif bŵer galluogi yn cael ei gynnwys yn adran 2 o'r Ddeddf. O dan adran 2A o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth benodol drwy reoliadau sy'n cyfateb i'r hyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei wneud drwy ddefnyddio adran 2, ond nid yr holl ddarpariaeth a dim ond pan fo'r ddarpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig.

Bydd y Rheoliadau HIA yn disodli fframwaith cyfreithiol y DU ar gyfer gweithredu trefniadau gofal iechyd y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau presennol, sef Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau HEEASA"), a wneir mewn perthynas â darparu gofal iechyd cilyddol yng ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir, gan gynnwys gwneud taliadau. Mae'r Rheoliadau HEEASA hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi effaith i drefniadau gofal iechyd cilyddol gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE), Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau HIA yn debyg i'r Rheoliadau HEEASA i raddau helaeth, ond maent yn ehangu cwmpas y fframwaith cyfreithiol i gynnwys cytundebau gofal iechyd rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd Gweddill y Byd. Mae'r Rheoliadau HIA yn:

- galluogi i daliadau gael eu gwneud yn unol â chytundeb gofal iechyd cilyddol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y DU gyfan;
- galluogi i daliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn amgylchiadau eithriadol ar sail y DU gyfan;
- gorfodi gofyniad i roi effaith i rwymedigaethau ac ymrwymiadau'r DU o dan gytundebau gofal iechyd perthnasol, gan gynnwys prosesu swyddogaethau triniaeth mamolaeth a gynlluniwyd, ar Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG y DU (NHSBSA);
- gorfodi swyddogaethau gwybodaeth a chyngor ar NHSBSA;
- rhestru Gwledydd Gweddill y Byd sy'n rhan o gytundebau gofal iechyd rhyngwladol â'r DU;
- gorfodi swyddogaethau triniaeth a gynlluniwyd S2 ar GIG Lloegr, Byrddau Iechyd Lleol Cymru a byrddau iechyd yr Alban (hy, gwneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â cheisiadau a phennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau S2, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer proses adolygu).

Gellid gwneud rhai agweddau ar y Rheoliadau HIA yn gyfan neu'n rhannol drwy ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 2A o'r Ddeddf.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw mai yng Nghymru y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio, ond, ar yr achlysur hwn, rwyf wedi ystyried ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru.

Mae'r sefyllfa o ran cymhwysedd yn y maes hwn yn gymhleth. Er bod gan Weinidogion Cymru rywfaint o bŵer i wneud rheoliadau yn y maes hwn mewn perthynas â Chymru, mae'r fframwaith cyfreithiol sydd ar waith ar gyfer darparu gofal iechyd cilyddol wedi'i gydblethu hefyd ag agweddau nad ydynt o fewn cymhwysedd datganoledig. Felly, byddai rheoliadau Llywodraeth y DU a rheoliadau Cymru yn unig ar wahân yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. Gan fod y maes hwn wedi'i gydblethu cymaint, rwyf o'r farn y byddai'n ddarbodus pennu'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru mewn un set o reoliadau, yn hytrach na rhannu hyn rhwng rheoliadau Cymru yn unig a Rheoliadau'r DU. Mae hyn hefyd yn golygu bod y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch, yn unol ag egwyddorion cyfraith dda.

Mae'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol amnewid a wneir gan y Rheoliadau HIA mewn perthynas â chyfundrefn y DU ar gyfer gofal iechyd cilyddol yn cadw'r status quo yn fras o dan y Rheoliadau HEEASA cyfredol. Golyga hyn y byddai'r ddarpariaeth y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gwneud yn y Rheoliadau HIA mewn perthynas â Chymru ac mewn meysydd datganoledig yn cyfateb i'r ddarpariaeth y byddem ninnau yn ei gwneud mewn rheoliadau Cymru yn unig. Felly, ni fyddai'n niweidiol i'r safbwynt polisi yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru. Nid yw'r dull gweithredu hwn ychwaith yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau i Gymru yn unig o dan adran 2A o'r Ddeddf yn y dyfodol.

Rhestrir gwledydd a gwmpesir gan Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol mewn Atodlen i'r Rheoliadau HIA. O ystyried bod Llywodraeth y DU am geisio cytundebau â nifer o wledydd yn y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd angen diwygio'r Atodlen gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol bob tro y bydd gwledydd yn cael eu rhestru, rwy'n ystyried ei fod yn fwy ymarferol ac effeithlon bod Llywodraeth y DU yn gwneud y gwaith hwn ar ein rhan.

Nid yw'r dull yn y Rheoliadau HIA fel y'u drafftiwyd yn gwrthdaro â'r Rhaglen Lywodraethu nac ychwaith y Cytundeb Cydweithio.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder** |
| **DYDDIAD** | **25 Ebrill 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a Jane Hutt, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol** |

Heddiw rydym am roi diweddariad i'r Aelodau ar rai camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder i Gymru.

Rydym yn comisiynu amrywiaeth o waith ym meysydd cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf i ddeall sut y gallai datganoli'r meysydd hyn ddigwydd yn ymarferol a sut y gallem sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl o ddatganoli'r gwasanaethau hyn i Gymru.

O ran cyfiawnder ieuenctid, rydym wedi comisiynu Dr Jonathan Evans, Athro Polisi ac Ymarfer Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhrifysgol De Cymru sydd wedi ymddeol yn ddiweddar, i arwain adolygiad anffurfiol o'r system Cyfiawnder Ieuenctid bresennol yng Nghymru, gan ystyried y cyfleoedd sy'n deillio o ddatganoli ac i asesu pa gamau ymarferol nesaf a allai fod tuag at ddatganoli. Mae Dr Evans yn cael ei gefnogi yn ei waith gan Grŵp Cynghori Academaidd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru sy'n cynnwys academyddion a rhai sydd â phrofiad ymarferwyr ledled Cymru.

O ran y gwasanaeth prawf, rydym yn ceisio bwrw ymlaen â darn o ymchwil â ffocws ar y camau ymarferol sydd eu hangen i sicrhau bod datganoli'r gwasanaeth prawf yn realiti. Bydd hyn yn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf, grŵp o academyddion a'r rhai sydd â phrofiad gweithredol o'r gwasanaeth prawf, o dan nawdd Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Bydd yn archwilio'r arferion gorau mewn perthynas â'r gwasanaeth prawf a lleihau aildroseddu ac yn nodi rhai o'r cyfleoedd posibl sy'n deillio o ddatganoli'r gwasanaeth prawf yng Nghymru.

Y tu hwnt i'r gwaith hwn, mae plismona yn faes arall lle dadleuwyd dros ddatganoli mor bell yn ôl â Chomisiwn Silk, ac fe bleidleisiodd y Senedd o blaid datganoli plismona fis Mawrth diwethaf. Mae mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona yn un o ymrwymiadau penodol y Rhaglen Lywodraethu, a'n bwriad yw y byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn.

O ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn, a sicrhau ei fod yn cyd-fynd, mae'n bwysig bod cymorth arbenigol a gwaith craffu ar draws ystod ein cynlluniau.  Fel rhan o hynny, rydym wedi penodi'r Fonesig Vera Baird CB i ymgymryd â rôl Cynghorydd Arbenigol Annibynnol i Lywodraeth Cymru ar Ddatganoli Cyfiawnder.

Bydd y rhaglen waith hon, ynghyd â'n gwaith mewnol parhaus, yn arwain at ystod eang o ddealltwriaeth a dysgu a fydd yn ein helpu i ddeall sut i sicrhau bod datganoli yn y meysydd hyn yn realiti ymarferol a chadarnhaol.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r aelodau am gynnydd, gan gynnwys drwy ddatganiad llafar maes o law.

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

19 Ebrill 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr. Mewn egwyddor, rwy'n cytuno i ddod i gyfarfod eich pwyllgor yn unol â'ch cais ac yn amodol ar yr ystyriaethau canlynol.

Fel y gwyddoch, rwy'n mynychu'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog bob tymor i gymryd cwestiynau sy'n ymwneud â holl amrediad gwaith y Llywodraeth. Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at fy nyletswyddau wythnosol yn y Senedd. Ein polisi hirsefydlog yw na ddylai'r Prif Weinidog fel arfer fynychu pwyllgorau sy'n craffu ar waith portffolios y mae gweinidogion unigol yn atebol amdano ar ran Llywodraeth Cymru.

Rwy'n cydnabod bod y materion yr ydych chi'n cyfeirio atynt – y Rhaglen Ddeddfwriaethol, Cysylltiadau Rhyngwladol ac Ewrop – yn faterion y mae gennyf i, fel y Prif Weinidog, gyfrifoldebau penodol a strategol drostynt. Byddwn, felly, yn fodlon dod i gyfarfod eich pwyllgor i gymryd cwestiynau ar y pynciau hyn. I fod yn glir, ac yn unol â'r polisi a ddisgrifir uchod, ni fyddwn yn fodlon cymryd cwestiynau ar, er enghraifft, y portffolio Cyfiawnder sydd ag atebolrwydd gweinidogol yn y ffordd arferol.

Os ydych yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon, byddwn yn hapus i'n swyddfeydd wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

11 Ebrill 2023

Annwyl Mark,

Gwahoddiad i roi tystiolaeth - 18 Medi 2023

Fel yr ydych yn ddiau yn gwybod, mae cylch gwaith craffu fy Mhwyllgor yn cynnwys llawer o'ch cyfrifoldebau fel Prif Weinidog, gan gynnwys cysylltiadau rhynglywodraethol, y Rhaglen Ddeddfwriaethol, cysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau ag Ewrop.

Wrth inni agosáu at ganol y Chweched Senedd, hoffwn eich gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Medi inni drafod y materion hyn yn fanwl â chi. Rwy'n rhagweld y bydd y sesiwn dystiolaeth yn cael ei chynnal rhwng 13:00 a 14:30, mewn ystafell bwyllgora ar ystâd y Senedd.

Rhowch wybod i mi cyn gynted â phosibl a fyddwch chi'n gallu cymryd rhan; os yw ymrwymiadau blaenorol yn eich atal rhag cymryd rhan ar y dyddiad hwn, cysylltwch â chlercod y pwyllgor i drafod dyddiadau eraill.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Office for the Internal Market
Part of the Competition and Markets Authority

Huw Irranca-Davies MS (Chair)

Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru, Bae Caerdydd,
Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
Senedd Cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
Senedd Wales/SeneddLJC
0300 200 6565

From: Rachel Merelie
Senior Director, Office for the Internal Market

[redacted]

25/04/2023

**Evidence to the Legislation, Justice and Constitution Committee**

Dear Huw,

Thank you for the invitation to give evidence to the Legislation, Justice and Constitution Committee.

We are grateful for the opportunity to discuss our Periodic and Annual Reports, as well as our Data Strategy Roadmap, with the Committee and I would be delighted to accept the invitation on behalf of the Office for the Internal Market.

In accepting the invitation, I note that our remit is to look at the impact of regulation on the UK internal market and the effectiveness of the United Kingdom Internal Market Act 2020 itself, rather than a broader assessment of the laws made by the Senedd or others. There are, therefore, likely to be limits to what we can add to your discussions on these broader points.

Your office can contact [redacted] to make further arrangements for the evidence session.

Yours sincerely,

Rachel Merelie

[redacted]

Senior Director

Office for the Internal Market

[redacted]

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rachel Merelie
Uwch-gyfarwyddwr
Swyddfa'r Farchnad Fewnol

11 Ebrill 2023

Annwyl Rachel,

Tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae fy Mhwyllgor yn ymddiddori'n fawr yng ngweithrediad *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* ("y Ddeddf"), yn enwedig ei heffaith ar effeithiolrwydd cyfraith a wneir gan y Senedd.

Nodwn i Swyddfa'r Farchnad Fewnol gyhoeddi dau adroddiad ar 22 Mawrth 2023:

- yr adroddiad blynyddol cyntaf ar weithrediad marchnad fewnol y DU a datblygiadau o ran effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad honno, yn unol ag adran 33(5) o'r Ddeddf;
- yr adroddiad cyfnodol cyntaf i asesu'r trefniadau a sefydlwyd gan y Ddeddf, yn unol ag adran 33(6) o'r Ddeddf.

Yng ngoleuni ein diddordeb yn y Ddeddf ac yn yr adroddiadau hyn, credwn y byddai'n amserol eich gwahodd i sesiwn dystiolaeth, i drafod gweithrediad y farchnad fewnol ac i edrych yn fanylach ar rai o'r materion perthnasol. Os ydych yn fodlon derbyn ein gwahoddiad, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu â Chlerc y Pwyllgor, Gareth Williams, yn y cyfeiriad e-bost uchod i drefnu dyddiad ac amser addas.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd